



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

CYNNIG AELODAETH: DRAFFT CYCHWYNNOL

Hydref 2021

CYFLWYNIAD

Ymunwch â Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru wrth i ni weithio i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais i ddylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth, ac ymarfer ar gyfer materion lleol a chenedlaethol sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli, sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol a darpariaeth cymunedau mwy diogel ar draws Cymru.

EIN HUCHELGAIS yw bod diogelwch cymunedol yn cael ei barchu a'i integreiddio ar draws bob maes polisi perthnasol yng Nghymru, a bod ein haelodau yn fwy ymwybodol ac yn cael cefnogaeth i ddatblygu a chyflawni eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol. Rydym wedi ymrwmo i weithio gydag aelodau a sefydliadau partner i ddarparu datrysiadau ataliol, arloesol sydd wedi'u llywio gan drawma ac yn seiliedig ar dystiolaeth, drwy weithio mewn partneriaeth a rhannu arferion gorau o bob rhan o Gymru a thu hwnt.

Er mwyn cyflawni Cymru lewyrchus, gydnerth, gyfartal ac iachach, gyda chymunedau cydlynus a chynhwysol a diwylliant bywiog, mae angen i bobl sy'n byw yng Nghymru, yn gweithio yma ac yn ymweld â

ni, deimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel. Er nad yw'r Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn gallu cyflawni hyn ar ein pen ein hunain, rydym yn awyddus i helpu i hwyluso a chydlynu partneriaid i gyflawni'r nod yma. Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau defnydd cadarn a chyson o'r "pum ffordd o weithio" o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sef: Hirdymor; Integreiddio; Cyfranogi; Cydweithio; ac Atal. Rydym hefyd yn gweithio ochr

yn ochr â fframweithiau eraill y mae ein partneriaid yn eu defnyddio. I ddarganfod mwy am y fframweithiau rydym yn gweithio ynddynt, edrychwch ar ein ffeithlun deinamig.

Mae gweithio ledled Cymru o fewn aelodaeth ehangach yn cynnig cyfleoedd i ddylanwadu ar gymunedau lleol ac unigolion, i atal aildroseddu neu gynnydd i weithredoedd pellach a / neu waeth, a chael ffocws cryf ar ddiogelu a chefnogaeth i ddiodefwr.



Trwy ymuno â'r Rhwydwaith byddwch yn derbyn buddion ychwanegol:

BUDDION AELODAETH

YMGYSYLLTU:

- 3 lle am ddim mewn cyfarfodydd rhwydwaith (2 waith y flwyddyn).
- 3 lle am ddim yn y gynhadledd flynyddol, a chyfradd ostyngol i fynychwyr eraill (o leiaf 25% i ffwrdd).
- 1 lle am ddim yn y Gwobrau Diogelwch Cymunedol (i'w lansio ym mis Ionawr 2022), a chyfradd ostyngol i fynychwyr eraill (o leiaf 25% i ffwrdd).
- Mynediad am ddim i 3 unigolyn i seminarau dros y we.
- Mynediad am ddim neu am gyfradd ostyngol i seminarau wyneb yn wyneb.
- Cyfleoedd hyfforddiant am ddim neu am gyfradd ostyngol.
- Gwahoddiad cynnar i weithdai ar themâu penodol ac ymgynghoriadau.
- Darperir gwybodaeth ychwanegol drwy'r porth aelodau (lle bo'n briodol), sydd o natur gyfrinachol – megis y briffiau neu wybodaeth gan IOM Cymru neu Prevent / Contest nad oes modd eu rhoi ar wefan sydd ar gael i'r cyhoedd.

BUDDION AELODAETH



CEFNOGAETH:

- Cyngor ar faterion diogelwch cymunedol penodol, datrys problemau, cefnogaeth â llywodraethu am ddim.
- Adolygiadau cymheiriaid am ddim o drefniadau llywodraethu, strwythurau tîm diogelwch cymunedol (os yw capasiti'n caniatáu hynny).
- Cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â dogfennau – Cylch Gorchwyl enghreifftiol ac ati.
- Ymatebion drafft i ymgynghoriad y gellir eu haddasu'n lleol.
- Mynediad at seminarau wedi'u recordio a hyfforddiant drwy'r porth aelodau.

BUDDION AELODAETH

CYFATHREBU:

- Sesiynau briffio ar ddeddfwriaeth newydd a dyletswyddau, ac astudiaethau achos / enghreifftiau o arfer orau.
- Sesiynau briffio ar gyllid.
- Cefnogaeth ynghylch dogfennau – templed o newyddlen / adnoddau ymgyrch ac ati.
- Cefnogaeth ar gyfer ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.



BUDDION AELODAETH

CYFEIRIAD Y DYFODOL:

Fel aelod, byddwch hefyd yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Rhwydwaith, y cyfeiriad dyfodol, a meysydd gwaith penodol. Trwy gyfarfod blynyddol yr aelodau, byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i'r Bwrdd Llywodraethu a'r tîm Rhwydwaith, a sicrhau bod y Rhwydwaith yn gweithio i'ch sefydliad chi yn ogystal ag eraill.

Bydd y Rhwydwaith yn parhau i godi proffil diogelwch cymunedol a chynrychioli diogelwch cymunedol lle bo'n briodol i wneud hynny yng Nghymru a'r DU. Bydd y rhwydweithiau partner (Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru, Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru, Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) yn parhau i gael eu cefnogi drwy ysgrifenyddiaeth gan y tîm Rhwydwaith.

DIOLCH AM EICH DIDDORDEB MEWN DOD YN AELOD O
RWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â -
CymunedauMwyDiogel@wlga.gov.uk

Hawlfraint 2021 © Rhwydwaith
Cymunedau Mwy Diogel Cymru, CLILC



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network